

Digwyddiadau yn Sir Conwy - Tachwedd 2019

Gwiriwch y rhestr ddigwyddiadau ar www.visitconwy.org.uk am y wybodaeth ddiweddaraf ar yr hyn sydd ymlaen yn Sir Conwy

Orielau Celf

Oriel Ffin y Parc - Betws Road, Llanrwst. Ar agor dydd Mercher i ddydd Sadwrn 10am i 5pm, dydd Sul 11am i 5pm. Ffôn: 01492 642070. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.welshart.net/

- **Tan 6 Tachwedd - Chloë Holt** - Diwrnod ar Ynys Llanddwyn, ynys oddi ar ynys, oddi ar ynys, oddi ar ynys... pendraw'r llwybr. Mae hon wedi bod yn un o hoff leoedd Chloë erioed.
- **Tan 6 Tachwedd - Chris Neale** - Mae Ffin y Parc yn falch o groesawu Chris Neale yn ôl gyda chasgliad newydd o dirluniau Gogledd Cymru.
- **Tan 6 Tachwedd - Robert Pitwell** - Ar gyfer y casgliad bach, newydd hwn, mae Rob wedi creu gwaith llachar, llawn lliw, yn aml wedi'i beintio ar ddeunydd a ganfuwyd neu eu hailddefnyddio.
- **10 Tachwedd i 4 Rhagfyr - Arddangosfeydd:** Anne Aspinall, Lansio Llyfrau a Kate Pasvol.

MOSTYN - 12 Vaughan Street, Llandudno. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sul, 10.30am i 4pm. Ffôn: 01492 879201. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.mostyn.org

- **Tan 26 Ionawr - Jamie Barnes - Strwythurau'r Môr** - Wedi'i ysbrydoli gan grwydro llwybrau'r arfordir o amgylch Cymru, Ynys Môn, Northumberland, Cymbria a'r Alban.
- **Tan 26 Ionawr - Ciplwg 18** - Mae gennym ddetholiad ardderchog arall o waith gan artistiaid o Ogledd Cymru y tymor hwn ym MOSTYN, mewn partneriaeth gyda'r Helfa Gelf Art Trail: Deborah Albrow / Mark Albrow / Louise Edwards / Helen Howlett / Wini Jones Lewis / Verity Pulford. Mae'r arddangosfa wedi'i guradu gan Barry Morris, MOSTYN.
- **Tan 26 Ionawr - FEL Y MAE: Ôl-troed dyn ar dirlun Cymru** - Ffotograffau gan David Hurn, ffotograffydd Magnum, gyda ffilm am yr artist gan Zed Nelson.
- **9 Tachwedd i 1 Mawrth - Anj Smith** - Gan weithio'n bennaf drwy baentio, mae gan Anj Smith ddiddordeb mewn adlewyrchu ar union bosibiliadau a chyfyngiadau'r cyfrwng ei hun.
- **9 Tachwedd i 1 Mawrth - Chiara Camoni** - Gan gynnwys gweithiau newydd a diweddar, mae arddangosfa Chiara Camoni yn cynnwys darn cydweithredol a wnaed yn arbennig ar gyfer MOSTYN.
- **9 Tachwedd i 1 Mawrth - Nobuko Tsuchiya: 30 Ways to Go to the Moon** - Mae'r corff newydd hwn o waith gan yr artist o Japan, Nobuko Tsuchiya, yn cael ei ddangos yng Nghymru am y tro cyntaf.

Academi Frenhinol Gymreig - Crown Lane, Conwy. Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sadwrn rhwng 11am a 5pm. Ffôn: 01492 593413. Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.rcaconwy.org

- **Tan 16 Tachwedd - Ann Catrin Evans - 'Arial'**.
- **Tan 16 Tachwedd - Y Grŵp Cymreig yn 70** - Arddangosfa i ddathlu 70 mlynedd o'r Grŵp Cymreig.
- **23 Tachwedd i 21 Rhagfyr - Arddangosfa Gaeaf** - Detholiad o waith, rhesymol eu pris, sydd ar gael i'w prynu oddi ar y waliau.

Atyniadau

Gardd Bodnant - Tal-y-Cafn, Bae Colwyn. Mae taliadau mynediad yn berthnasol. Ffôn: 01492 650460 (neu 0344 2491895 ar gyfer archebu digwyddiadau). Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.nationaltrust.org.uk/bodnant-garden

- **4 Tachwedd - Taith Gerdded Adar** - Dewch i fwynhau taith dywys o amgylch yr ardd gyda Becky, yr arbenigwr lleol ar adar. Rhwng 11am a 12.30pm. Mae'n rhaid archebu lle.
- **13 Tachwedd - Taith Gerdded a The Prynhawn gyda'r Prif Arddwr** - Dewch i fwynhau taith dywys gyda John y Prif Arddwr, a chael te gwerinol wedi hynny. Rhwng 11am a 2.30pm. Mae'n rhaid archebu lle. Tocynnau £25.

Gwarchodfa Natur RSPB - Ger yr A55, Cyffordd Llandudno. Mae taliadau mynediad yn berthnasol ar gyfer llwybrau'r warchodfa. Ffôn: 01492 584091 (neu 01492 581025 ar gyfer archebu digwyddiadau). Ymwelwch â'r wefan am fanylion am fwy o weithgareddau ar y safle: www.rspb.org.uk/reserves-and-events/reserves-a-z/conwy

- **1 Tachwedd - Chwarae Gwirion dydd Gwener!** - Gwisgwch eich gwisg ffansi orau a mwynhewch Chwarae Gwirion Dydd Gwener ar thema Calan Gaeaf! Bydd digon o bethau i chwarae â nhw fel arfer, gyda chrefftau calan gaeaf ychwanegol a llwyth o bethau brawychus i'w mwynhau! Gallwch ymuno unrhyw bryd rhwng 11am a 3pm, does dim angen cadw lle. Mae'r digwyddiad wedi'i anelu at blant rhwng 3 ac 8 oed a'u teuluoedd. Mae'r digwyddiad hwn yn dibynnu ar y tywydd. Digwyddiad am ddim.
- **1 i 3 Tachwedd - ArtlySparkly Designs a Sebon Craft** - Arddangosfa ac arwerthiant o eitemau sy'n gysylltiedig â natur gan Sam (ArtlySparkly Designs) a Kate (Sebon Craft). Porwch drwy emwaith gwydr y môr, tlysau clai a phren, ffotograffiaeth natur, dillad wedi'u huwchgylchu ar thema natur, sebonau naturiol wedi'u gwneud â llaw, cardiau, dillad wedi'u crosio a dillad gwahanol wedi'u gweu. Rhwng 10am a 4pm. Digwyddiad am ddim.
- **2 Tachwedd - Clwb Fforwyr Bywyd Gwyllt** - Mae'r Clwb Fforwyr Bywyd Gwyllt yn cyfarfod ar y dydd Sadwrn cyntaf bob mis, ac mae wedi ei anelu at bobl ifanc rhwng 8 a 12 oed. Ymunwch â ni ar gyfer pob math o weithgareddau sy'n ymwneud â natur, a chael rhywfaint o hwyl ymarferol yn eich gwarchodfa natur leol! Rhwng 1.30pm a 3.30pm. Mae'n rhaid archebu lle. Mae taliadau yn berthnasol.
- **23 a 24 Tachwedd - Arddangosfa/Arwerthiant Celf Bee Williams** - Porwch drwy anrhegion unigryw ar thema natur a bywyd gwyllt gan yr artist lleol Bee Williams, gan gynnwys gwaith celf, cardiau, dyddiaduron a gemwaith wedi eu gwneud â llaw. Rhwng 10am a 4pm. Digwyddiad am ddim.
- **27 Tachwedd - Marchnad Ffermwyr Conwy** - Cynnyrch fferm a nwyddau lleol o'r ansawdd gorau rhwng 9am a 1pm. Digwyddiad am ddim. Gwe: www.conwyfarmersmarket.co.uk

Theatrau

Theatr Colwyn - Ffordd Abergele, Bae Colwyn. Ffôn: 01492 556677/872000. Gwe: www.theatrcolwyn.co.uk

- **2 Tachwedd - NT Live: One Man, Two Guvnors** am 7pm.
- **6 Tachwedd - Ensemble Cymru - Schubert** am 7.30pm.
- **8 a 9 Tachwedd - Annie Get Your Gun** - gweler y wefan am amseroedd perfformiad.
- **10 a 12 Tachwedd - 42nd Street - The Musical** - gweler y wefan am amseroedd perfformiad.
- **14 i 16 Tachwedd - 'Allo 'Allo** - gweler y wefan am amseroedd perfformiad.
- **20 Tachwedd - RSC Live: Timon of Athens** am 7pm.
- **21 Tachwedd - Y Storfa Gomedï** am 7.30pm.
- **25 Tachwedd - NT Live: Hansard** am 7pm.
- **28 Tachwedd - NT Live: Present Laughter** am 7pm.
- **29 Tachwedd - Snow White** am 7.30pm.
- **30 Tachwedd - Mrs Peachum's Guide to Love and Marriage** am 7.30pm.

Venue Cymru - Promenâd, Llandudno. Ffôn: 01492 872000. Gwe: www.venuecymru.co.uk

- **29 Hydref a 2 Tachwedd - Opera Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno Carmen** am 7.15pm.
- **30 Hydref a 1 Tachwedd - Opera Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno Rigoletto** am 7.15pm.
- **7 Tachwedd - Rhod Gilbert - The Book of John** am 7.30pm.
- **8 i 10 Tachwedd - Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru** - gweler y wefan am amseroedd perfformiad.
- **9 a 10 Tachwedd - Peppa Pig's Best Day Ever** - gweler y wefan am amseroedd perfformiad.
- **12 Tachwedd - Drudwen** am 11am a 7.30pm.
- **12 Tachwedd - The Australian Pink Floyd Show** am 7.30pm.
- **14 Tachwedd - Beyond the Barricade - Taith Dathlu 20 Mlynedd** am 7.30pm.

- **15 Tachwedd - Squeeze** am 7.30pm.
- **21 Tachwedd - Sioe Nadolig That'll Be The Day** am 7.30pm.
- **23 Tachwedd - The Lacey Lecture - Averting the Insect Apocalypse** am 7pm.
- **23 Tachwedd - Sixties Gold** am 7.30pm.
- **24 Tachwedd - Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC** am 3pm.
- **27 Tachwedd - Ben Elton Live 2019** am 7.30pm.
- **28 Tachwedd - Hello Again - The Story of Neil Diamond** am 7.30pm.
- **30 Tachwedd - What's Love Got To Do With It?** am 7.30pm.

Digwyddiadau Cyffredinol

Pob dydd Gwener tan 20 Rhagfyr - Marchnad Wledig Llandrillo-yn-Rhos - Mae bwyd, cacennau, bara, prydau sawrus a bisgedi cartref, crefftau cartref a phlanhigion tymhorol ar werth. Lluniaeth ar gael, a chroeso i bawb. Yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Colwyn Avenue, Llandrillo-yn-Rhos rhwng 10am a 12pm. Ffôn: 01492 544920

1 Tachwedd - The Quaynotes - Dewch i fwynhau siampên a choctels wrth wrando ar seiniau hyfryd band jazz The Quaynotes yn y Prohibition Wine & Champagne Lounge, Station Road, Deganwy o 8pm. Ni chodir tâl mynediad, ond byddem yn eich argymhell i archebu lle. Ffôn: 01492 203749. Gwe: www.prohibitionlounge.co.uk/

1 a 2 Tachwedd - Arddangosfa Tecstilau Creadigol - Ymunwch â ni yn Arddangosfa Cymdeithas Brodwyr Gogledd Cymru 2019, sef 'Tecstilau Creadigol'. Bydd yr aelodau'n arddangos dros 200 o eitemau sy'n amlygu amrywiaeth eang o dechnegau, gydag arddangosiadau gan yr aelodau a'r Grŵp Tecstilau Ifanc. Yn y United Reformed Church, Colwyn Avenue, Llandrillo-yn-Rhos rhwng 10.30am a 5pm dydd Gwener a rhwng 10.30am a 4pm dydd Sadwrn. Mynediad £2. Gwe: www.facebook.com/northwalesembroiderersguild

2 Tachwedd - Ffair Hen Bethau a Chasglwyr - Mae'r Llewod o Landudno wedi bod yn cynnal Ffair Hen Bethau a Chasglwyr yn Llandudno am dros 30 blwyddyn. Mae amrywiaeth eang o eitemau ar werth gyda phrisiau sy'n addas i bawb, yn amrywio o £1 i gannoedd o bunnoedd. Bydd yr holl elw yn mynd i elusennau lleol. Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 9am a 4pm. Mynediad: 50c. Ffôn: 07968 957177

2 Tachwedd - Ffair Hydref Blynyddol Cŵn Tywys - Ymunwch â ni yn Ffair Hydref Blynyddol Cŵn Tywys. Bydd gennym amrywiaeth o stondinau tymhorol ac mae croeso cynnes i bawb. Bydd yr elw yn mynd i'r grŵp lleol. Yn Eglwys Dewi Sant, Bae Penrhyn rhwng 1.30pm a 3.30pm. Mynediad £1.50. Ffôn: 01492 875098

2 a 3 Tachwedd - Gŵyl Gerdded Eryri - Penwythnos o deithiau cerdded addas i bawb yn amgylchedd hudol ac unigryw Parc Cenedlaethol Eryri. Wedi eu lleoli ym Metws-y-Coed bydd y teithiau cerdded tywysedig proffesiynol hyn yn eich tywys ar hyd mynyddoedd a choedwigoedd a chewch fwynhau'r gorau sydd gan Eryri i'w gynnig. O Gae Llan, Betws-y-Coed. Ffôn: 07525 625375. Gwe: www.breeseadventures.co.uk/what-we-do/snowdonia-walking-festival/

5 Tachwedd - Sioe Tân Gwylt a Choelcerth Bae Colwyn - Ymunwch â ni yn sioe tân gwylt a choelcerth flynyddol Bae Colwyn. Mae mynediad am ddim, ond anogir cyfraniadau. Ym Mharc Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn o 6pm gydag arddangosfa o 7pm. Ffôn: 01492 532248

8 i 10 Tachwedd - Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru - Mae'r ŵyl wedi croesawu corau o bob cwr o'r byd i gystadlu yn y dathliad arbennig hwn o gerddoriaeth. Peidiwch â cholli'r cyfle i fwynhau'r penwythnos prysur yma gyda chyngherddau a chystadlaethau. Yn Venue Cymru, Promenâd, Llandudno. Gweler y wefan am fanylion llawn amseroedd a phrisiau tocynnau: www.venuecymru.co.uk neu ffoniwch y Swyddfa Docynnau ar 01492 872000.

9 Tachwedd - Caneuon Gwrthryfel a Môr-ladron: Y Korrigan Consort ar Daith - Fel rhan o'i siwrnai i gystadlu yng Ngŵyl Gorawl Gogledd Cymru, bydd y Korrigan Consort yn perfformio yn Eglwys Sant Cynbryd, Llanddulas. Peidiwch â cholli'r cyfle! O 7.30pm. Tocynnau £10/£5. Ffôn: 07375 404638. Gwe: www.korriganconsort.com/

9 Tachwedd - Her Lwybr Betws-y-Coed - Gyda llwybrau 5k, 10k, hanner marathon, canicross (5k a 10k) a Bergen 10k, mae rhywbeth i weddu rhedwyr o bob gallu, felly dewch i ymuno yn yr hwyll! Mae bob ras yn dechrau o Gae Llan, Betws-y-Coed ac yn dilyn llwybr golygfaol sy'n dringo drwy'r goedwig tu ôl i Eglwys y Santes Fair, Betws-y-Coed. Gwe: www.trailbetws.com

10 Tachwedd - Sul y Cofio Llandudno - Bydd Gwasanaeth Dwyfol yn cael ei gynnal yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Stryd Mostyn i'w ddilyn gyda Gorymdaith at y gofgolofn, ar y Promenâd, ar gyfer gosod torchau. Rhwng 9.45am a 11.30am. Ffôn: 01492 879130. Gwe: www.llandudno.gov.uk

10 Tachwedd - Sul y Cofio Ochr y Penrhyn - Bydd Gwasanaeth Coffa yn cael ei gynnal yn Neuadd Bentref Ochr y Penrhyn gyda gweithred o Gofio ger y Gofeb Ryfel, Ochr y Penrhyn. Rhwng 10.15am a 11.30am. Ffôn: 01492 879130. Gwe: www.llandudno.gov.uk

14 i 17 Tachwedd - Ffair Nadolig Llandudno - Mae'n cael ei gydnabod fel Ffair Nadolig mwyaf Cymru gyda 150+ o stondinau, ac yn lle gwych i brynu anrhegion anarferol a rhai i'w trysori wrth samplu bwyd a diod o'r ardal. Mae'n gyfle perffaith i ddechrau mynd i hwyl yr ŵyl, gyda bragdai bach yn gwerthu mwy na 40 cwrw a bwyd Cymreig bendigedig i'w fwynhau. Gweler y wefan am amseroedd agor a phrisiau tocynnau: www.llandudnochristmasfayre.co.uk

15/16 a 23 Tachwedd - Ffair Fintej a Hen Bethau - Bydd amrywiaeth o nwyddau ar werth gyda phrisiau i weddu pawb: llestri talch, gwydr, lliainiau, peintiadau ac argraffiadau, llyfrau, gemwaith (gemau cain a gemau gwisgo), arian, cardiau post ac ati. Yn Neuadd y Dref, Lloyd Street, Llandudno rhwng 9am a 5pm ar 15 a 16 Tachwedd a rhwng 9am a 4pm ar 23 Tachwedd. Mynediad: oedolyn 50c; plentyn (dan 16) am ddim. Ffôn: 07581 397721. Gwe: www.simplythebestantiquefairs.co.uk

16 Tachwedd - Golau Gaeaf - Pennod I - Rydym yn dechrau'r bennod gyntaf yn hanes y Gogarth, a aeth yn angof ers tro. Mewn digwyddiad newydd, cyffrous y gaeaf hwn, bydd ymwelwyr yn cael eu swyno gan orymdaith o greaduriaid chwedlonol, Ficingiaid a chriw anhygoel wedi'i gadael ar ôl o syrcas Fictoraidd. Gyda cherddoriaeth, effeithiau arbennig a pherfformwyr, rhaid disgwyl yr annisgwyl yn yr orymdaith unigryw hon. Ar Stryd Mostyn, Llandudno o 7pm ac ymunwch â ni cyn yr orymdaith am amrywiaeth eang o weithgareddau ymylol i bobl o bob oedran. Gwe: www.conwy.gov.uk/digwyddiadau

17 Tachwedd - Hanner Marathon Conwy - Pleidleisiwyd yn un o'r 5 hanner marathon â'r golygfeydd gorau yn y DU gan ddarllenwyr Runners World, mae'r hanner marathon hwn bellach yn ei 11eg flwyddyn ac eisoes yn cael ei ystyried fel clasur. Mae dechrau a diwedd y marathon ar y cei o flaen Castell Conwy, sydd dros 700 mlwydd oed. Ras hwyl am 9.15am gyda hanner marathon yn cychwyn am 10am. Ffôn: 07506 665219. Gwe: www.runwales.com

23 Tachwedd - Tonnau, Mwd a Mynyddoedd - Mae cwrs rhwystrau unigryw Adventure Parc Snowdonia yn ôl! Paratowch i brofi'ch hun i'r eithaf ym mis Tachwedd - bydd y cwrs aml-dir 10k yn eich rhoi yn erbyn tonnau morlyn syrffio mewndirol cyntaf yn y byd, cwrs rhwystrau llawn mwd, her goedwig rewlyd a'r biblinell llawn poen. Yn Adventure Parc Snowdonia, Dolgarrog o 11am. Ffi mynediad o £30, am ddim i wylwyr. Ffôn: 01492 353123. Gwe: www.adventureparcsnowdonia.com

30 Tachwedd - Ffair Crefft Cymraeg y Nadolig - Dros 20 stodin o anrhegion hyfryd wedi'u gwneud â llaw, canhwyllau, gwydr wedi'i engrafu, byrddau adar, gwaith coed gwyrdd, crefftau gwllân ac wedi'u nyddu Cymreig, mêl Cymreig sydd wedi ennill gwobrau, cacennau, cyffeithiau a siytni. Mae pris mynediad (50c) yn cynnwys te/coffi am ddim. Yn y United Reformed Church, Colwyn Avenue, Llandrillo-yn-Rhos rhwng 10am a 4pm. Ffôn: 07425 157360

30 Tachwedd - 'Tis The Season - Mae Cwmni Theatr Manor yn cyflwyno 'Tis the Season', drama gomedi Nadolig gwreiddiol newydd. Yn Neuadd Goffa Rowen rhwng 7.30pm a 10pm. Tocynnau (£7) ar gael o Westy'r Tŷ Gwyn, Rowen. Ffôn: 01492 650232

Y MUNWCH Â'N RHESTR BOSTIO

i dderbyn pdf o'r Digwyddiadau yn Sir Conwy yn syth i'ch cyfeiriad e-bost bob mis. E-bostiwch eich cais i: maggie.williams@conwy.gov.uk

Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni all Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) dderbyn unrhyw gyfrifoldeb os bydd unrhyw ddigwyddiad yn cael ei ganslo neu ei ohirio. Os ydych yn trefnu digwyddiad a fydd o ddiddordeb i ymwelwyr a thwristiaid ac yr hoffech i ni ei hyrwyddo ar eich rhan, ewch i www.visitconwy.org.uk/information/get-listed. Byddwch yn cael eich cynnwys yn ôl disgrisiwn CBSC. Cynhyrchwyd gan Cyfathrebu Corfforaethol a Marchnata, CBSC. Ffôn: 01492 575940 neu e-bost: maggie.williams@conwy.gov.uk

This document is also available in English